**Nuffield Department of Medicine**
Microbiology, Level 7
John Radcliffe Hospital
Headley Way
Oxford, OX3 9DU

Swyddfa Ystadegau Gwladol

UNIVERSITY OF OXFORD

**8 Chwefror 2021**

**I bwy bynnag a fynno wybod**

**Teitl yr Astudiaeth:** Digwyddedd heintiadau COVID-19 (SARS-CoV-2) a chyffredinrwydd imiwnedd i COVID-19 (SARS-CoV-2) ym mhoblogaeth gyffredinol y Deyrnas Unedig fel y'u hasesir drwy gynnal arolygon trawstoriadol mynych o gartrefi sy'n cynwys samplu cyfresol ychwanegol a gwaith dilynol hydredol – Arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Teitl byr:** Arolwg Heintiadau COVID-19

**Cyfeirnod Moeseg:** 20/SC/0195

**Manylion Adnabod Prosiect IRAS:** 283248

**ISRCTN:** 21086382

Dyma gadarnhau mai astudiaeth arsylwadol sy'n cynnal profion SARS-CoV-2 rheolaidd ar unigolion 2 oed a hŷn yn y gymuned, p'un a oes ganddynt symptomau ai peidio, yw'r arolwg hwn.

Caiff y profion hyn eu cynnal at ddibenion **ymchwil yn unig ac nid ydynt yn rhan o raglenni profi cymunedol y GIG.** Nid oes gan y mwyafrif helaeth o'r cyfranogwyr unrhyw symptomau ac mae'r cyfranogwyr sydd â symptomau yn cael profion safonol o raglenni profi cymunedol y GIG yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cadarnhau na ddylai'r profion ymchwil a gynhelir fel rhan o'r astudiaeth **gael eu hystyried mewn unrhyw weithgaredd sydd fel arfer yn ddibynnol ar ganlyniadau prawf a gynhelir drwy raglen brofi'r GIG.**

Felly, **ni ddylai cyfranogwyr yr arolwg gael eu heithrio rhag unrhyw weithgaredd am eu bod yn aros am ganlyniadau prawf ymchwil. Mae hyn yn cynnwys:**

- Brechiadau COVID-19
- Mynychu ysgolion neu feithrinfeydd
- Gweithleoedd

Byddant yn parhau i ofyn am brofion y GIG yn achos unrhyw symptomau, a dylid parhau i ddefnyddio profion y GIG i asesu gweithgareddau. Mae'n ofynnol i gyfranogwyr yr arolwg hunanynysu ar ôl cael canlyniad prawf swab positif, ond maent wedi'u heithrio'n benodol rhag hunanynysu dro ar ôl tro os byddant yn parhau i brofi'n bositif, yn dilyn Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd sy'n cydnabod yn benodol y gall unigolion gael canlyniad swab positif am gyfnod o amser ond na fyddant yn peri fawr ddim risg o haint 10 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau neu ar ôl y canlyniad prawf positif cyntaf os nad oes ganddynt symptomau.

**Mae'r arolwg hwn yn hollbwysig i reoli ymateb y Deyrnas Unedig i'r pandemig, ac mae'n hanfodol nad yw'r cyfranogwyr yn cael eu cosbi am eu haelioni wrth gyfrannu at yr ymchwil hwn.**

Yn gywir

**A. Sarah Walker**
Prif Ymchwilydd, Arolwg Heintiadau COVID-19
Athro Ystadegau Meddygol ac Epidemioleg